



Rhagolwg paill - gwneud gronynnau paill mawr iawn

Ydych chi erioed wedi edrych yn agos iawn ar baill? Mae'r gronynnau bach hyn yn felltith yn nhymor clefyd y gwair.

Mae'r Swyddfa Dywydd yn darparu rhagolygon paill 5 diwrnod ymlaen llaw ar draws y DU drwy ddefnyddio peth o'n data tywydd ac arbenigedd gan sefydliadau megis yr Uned Genedlaethol Paill ac Aerbiolegol. Mae ein rhagolwg i'w weld **yma**.


Ond edrychwch arnyn nhw o dan ficrosgop ac fe welwch eu bod yn dod mewn pob math o siapiau a meintiau gwych.

Beth am roi cynnig ar wneud gronyn paill anferth gyda phapur pacio wedi'i ailgylchu? Maen nhw'n llawer o hwyl i'w creu ac – fel bonws – yn llawer rhy fawr i'w cael i fyny'ch trwyn!



Deunyddiau sydd eu hangen


- Cardboard
- Papur pacio
- Papur newydd
- Bocs grawnfwyd
- Glud PVA neu bast papur wal
- Tâp masgio
- Paent
- Siswrn
- Pensil




Activity Steps

01 Penderfynwch pa mor fawr yr hoffech i'ch paill fod a thynnwch ddau gylch ar gerdyn rhychiog. Mae ein un ni yn 25cm mewn diamedr.

02 Tynnwch linell ar draws canol pob cylch. Torrwch hanner ffordd ar hyd y llinell gyda siswrn i wneud slot.



03 Tynnwch linell ar draws canol pob cylch. Torrwch hanner ffordd ar hyd y llinell gyda siswrn i wneud slot.




- 04** Crynowch ychydig o bapur pacio a'i ddefnyddio i osod eich siâp allan. Gludwch ef yn ei le gyda thâp masgio nes bod eich gronyn paill yn cymryd ei siâp.



- 05** Rhwygwch rai stribedi o bapur newydd neu bapur brown. Paentiwch nhw gyda phast papur wal neu lud PVA wedi'i deneuo (ychwanegwch ychydig o ddŵr). Gorchuddiwch eich siâp gyda stribedi nes bod gennych arwyneb eithaf llyfn. Gadewch i sychu.



- 06** I wneud y pigau, tynnwch gylchoedd bach (oddeutu 6cm ar draws) ar gerdyn tenau (mae bocsgrawnfwyd yn gweithio'n dda) a'u torri allan. Torrwch bob cylch yn ei hanner.




- 07** Gwnewch doriadau bach ar hyd cromlin pob hanner cylch. Rholiwch yr hanner cylch i fyny i wneud côn a'i glymu â thâp.




08 Gludwch y pigau yn eu lle ac ychwanegwch haen arall o bapur mache dros yr wyneb. Gadewch i sychu'n drylwyr.



09 Dewiswch liw ar gyfer eich gronyn paill a phaentiwch y cyfan.





10 Pan ydych chi wedi gorffen, beth am wneud rhai siapiau paill eraill? Mae llawer o ysbrydoliaeth ar-lein.



Os hoffech chi ddysgu rhagor am baill, ewch i'n tudalen "10 peth y dylech chi wybod am baill" i weld rhagor.